

## Pythefnos Masnach Deg 2020 Chwefror 24 – Mawrth 8

Oeddech chi yn gwybod fod y siocled 'na gawsoch dros gyfnod y Nadolig yn rhan o farchnad sydd werth £4 biliwn y flwyddyn?

Onid faint o'r siocled yna oedd yn arddangos marc Masnach deg?

Ydi bar o siocled Masnach Deg yn gallu gwneud gwahaniaeth i fywydau unigolion, teuluoedd, a chymunedau?

Er bod siopau fel Oxfam wedi gwerthu nwyddau Masnach Deg ers tua 1965, dim ond yn

y 25 mlynedd diwethaf mae nwyddau sydd yn arddangos marc adnabyddus Masnach Deg fel te, coffi, siocled wedi ymddangos yn ddyddiol ar silffoedd yr archfarchnadoedd lleol.

Erbyn hyn mae un o'r cwmnïau siocled gwreiddiol – Divine, yn rhannu silffoedd gyda dros 6,000 o nwyddau sy'n



arddangos marc Masnach deg. Yn cynnwys y coffi gwreiddiol *Café Direct*, te gwreiddiol cwmni Clipper a siocled wrth gwrs, ond hefyd, reis, bananas, ffrwythau sych, sbeis, blodau, cotwm, dillad, hufen iâ, aur, a pheli pêl droed!

Mae'r marc adnabyddus yma yn sicrhau 5 nod.

- Isafswm am y cynnyrch. Golyga hynny fod y pris wedi ei gytuno â'r cynhyrchwyr a hwnnw'n bris sefydlog a chyson.
- Premiwm ychwanegol er mwyn gallu buddsoddi mewn cynlluniau lleol sy'n gwella datblygiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.
- Rhoi llais i ferched yn y gymdeithas drwy sicrhau incwm a chreu cwmnïau cydweithredol.
- Amodau gwaith diogel a theg.

- Dulliau cynhyrchu sydd yn cefnogi cynaladwyedd a diogelu'r amgylchedd. Mae hyn yn hanfodol oherwydd newid hinsawdd.

Mae cwmnïau a chynnyrch masnach deg yn cael eu harolygu er mwyn sicrhau eu

(parhad ar dudalen 2)

## Does neb ond ef...


Ar hyd y canrifoedd mae Cristnogion wedi neilltuo tymor y Garawys i weddio, i edifarhau am ein pechodau, i ymwadu â'n hunain ac i fod yn hael yn ein rhoddion i'r tlawd a'r anghenus.

Yn ystod y tymor byddwn yn troi'n golygon tuag at y Pasg, at fuddugoliaeth yr Arglwydd Iesu Grist ar Galfaria dros ddiadfol, cnawd a byd, dros bechod ac angau a'r bedd. Dathlu'r goncwest a wnawn bryd hynny.

Bydd Cristnogion ar draws y byd yn defnyddio'r 40 niwrnod i efelychu tymor Iesu Grist yn yr anialwch yn cael ei brofi gan Satan. (Luc 4)

Ar ddechrau ei weinidogaeth gyhoeddus wynebodd Iesu'r gelyn a'i drechu am y tro cyntaf. Mae'r frwydr gychwynnol honno yn dadorchuddio dichell cyfrwys Satan a hanfod pob temtasiwn erioed wynebodd y ddynolryw. A gwelwn obaith i bob un

ohonom ym muddugoliaeth yr un a ddaeth atom gan fod yn ufudd hyd angau ac a dra dyrchafwyd gan y Tad i'w ogoneddu gan yr Ysbryd Glân.



Yng nghofnod Luc ceir adlais bwriadol hefyd o brofiad Israel yn yr anialwch. Ac nid oes amheuaeth o gwbl nad yw Luc am i ni ddarllen holl hanes Iesu Grist fel Exodus newydd, rhagorach.

Onid oedd Moses ei hun wedi rhybuddio

'Bydd yr ARLWYDD dy Dduw yn codi o blith dy gymrodyr broffwyd fel fi, ac arno ef yr wyt i wrando.' (Deut. 18) Ac roedd y ffigwr y Gwas yng nghaneuon proffwydol Eiseia'n rhagweld dyfodiad Un y byddai'r Ysbryd yn gorffwys arno. 'Dyma fy ngwas, yr wyf yn ei gynnal, f'etholedig, yr wyf yn ymhyfydu ynddo. Rhoddais fy ysbryd ynddo, i gyhoeddi barn i'r cenedloedd.' (Eiseia 42)

Mae Luc am i ni adnabod cyflawniad y disgwyliadau hyn yn nyfodiad Iesu ei hun.

Uniaethodd ei hun yn ei fedydd gyda'r ddynolryw. Aeth trwy 'ddyfroedd' oedd yn cyfateb i'r Hebraid yn pasio drwy'r Môr

Coch. Daeth yr Ysbryd arno ac fel arweiniwyd hwythau i'r anialwch gan bresenoldeb yr Arglwydd mewn colofn o niwl ac o dân arweiniwyd y Gwardwr ei hun gan yr Ysbryd Glân i'r anialwch.

(parhad ar dudalen 2)

## Pythefnos Masnach Deg 2020 (parhad o dudalen 1)

bod mewn gwirionedd yn masnachu'n deg! Mae'r WFTO (Cyfundrefn Masnach Deg y Byd) yn arolygu er mwyn ardystio cwmnïau a chynnyrch Masnach Deg.

Felly, os welwch chi'r logo, rydych yn medru bod yn hyderus fod y cynnyrch hwnnw wedi ei fasnachu'n deg.

Ond, be mae hyn yn ei olygu mewn gwirionedd?

Mae 60% cocoa y byd yn tyfu yn Cote D'Ivoire a Ghana gan ffermwyr sy'n byw ar 75 ceiniog y diwrnod. Mae hyn yn ffigur sydd ychydig dros hanner y swm (£1.40) sydd wedi ei nodi fel lleiafswm incwm sydd ei angen i fyw arno. Er mwyn gwella ychydig ar yr amodau hyn, mae Masnach Deg wedi sicrhau fod pris isafswm coco i'r ffermwyr wedi codi 20% yn 2019. Mae'r premiwm ychwanegol hefyd wedi codi ac mae'r gwahaniaeth mae hyn yn ei wneud i fywydau i'w weld yn barod.

Mae dros 95,000 o ffermwyr o *Kuapa Kokoo Cooperative* yn Ghana yn berchnogion 40% o gwmni Divine. Oherwydd Masnach Deg, mae gan y ffermwyr yma lais yn y cwmni, llais sydd yn hybu safle'r ferch yn y gymdeithas yn bennaf yn ogystal â sawl prosiect sy'n ymwneud ag iechyd, tir, addysg a hawliau

plant. Mae cael pris teg am y coco yn golygu fod gan ferched incwm teg a hawliau, a gall cymunedau fuddsoddi i ail blannu coed, edrych ar ôl y tir ag addasu'r dulliau o ffermio er mwyn ymateb i newid hinsawdd.

Ond, dim ond canran fechan o'r coco sy'n tyfu yn Ghana sy'n hawlio'r marc Masnach Deg.

Yn Cote D'Ivoire, mae Masnach Deg yn golygu fod Rosine Bekoim sy'n tyfu coco, yn cael incwm teg i fyw, wedi cael hyfforddiant am sut i wella'i thir, a thrwy gyd weithio efo merched eraill cafodd gyfle i ymuno mewn cwmni cydweithredol sydd wedi buddsoddi mewn ysgol, codi siop, sydd hefyd yn ei galluogi i arallgyfeirio i dyfu cnydau eraill. Mae ymchwil yn dangos fod buddsoddi yn y merched yn arwain at ddatblygiad y cymunedau.

Ond, tydi pob ffermwr coco yn Cote D'Ivoire ddim yn rhan o hyn ac felly yn colli allan ar incwm teg pan mae pris y farchnad yn amrywio cymaint.

Cewch ddarllen am Rosine a merched eraill ar y wefan [www.fairtrade.org.uk/fortnight](http://www.fairtrade.org.uk/fortnight) neu gwylwch y ffilm i chi gael gweld faint ydi gwir werth siocled Masnach deg – Neu ewch i [www.fairtrade.org.uk/get%20involved/Current-campaigns/Fairtrade-Fortnight](http://www.fairtrade.org.uk/get%20involved/Current-campaigns/Fairtrade-Fortnight)

Ydy, mae'r marc yn gneud gwahaniaeth ac mae Rosine, Therese, Edith ac eraill yn elwa ychydig oherwydd ein bod ni yn prynu siocled Masnach Deg!

Ond, faint o nwyddau Masnach Deg ydym yn ei ddefnyddio yn ddyddiol, yn ein cartrefi, yn y Capel neu mewn cyfarfodydd lle mae yna banded ar gael? Dwi'n siŵr fod 'na gyfle i ni neud mwy drwy'r flwyddyn.

*Cheryl Williams*

## Does neb on ef ...

(parhad o dudalen 1)

Yn yr anialwch syrthiodd Israel i rwgnach am ddarpariaeth Duw ar eu cyfer. (Exodus 11 a Deut. 16) Wedi deugain niwrnod o ymprydio yn yr anialwch daeth y gwrthwynebydd, y cyhuddwr ar ei daith i herio Iesu. A dechreuodd ei ymosodiad drwy herio hunaniaeth, statws a gallu Iesu a bwrw amheuaeth am ddaioni darpariaeth y Tad.

Nid yw pob un sy'n dyfynnu'r Ysgrifur yn eirwir! A heriodd Iesu'r duwioldeb ymddangosiadol y gelyn trwy ei atgoffa fod Duw wedi dysgu'r bobl nad ar fara y byddwn fyw ond ar air Duw.

Yn yr anialwch fe demtiwyd yr Hebreaid droeon i gefnu ar Dduw ac i geisio duwiau dieithr, eilunod a grymoedd eraill a hynny er mwyn sicrhau eu diogelwch eu hunain. (Deut 6:10-15; 12:30-31; Exodus 23:23-33) Ond mae iaith ffydd yn mynnu mai Un Arglwydd yn unig sy'n haeddu'n hymddiriedaeth lwyf.

Yn yr anialwch darllenwn am sut yr oedd y bobl yn barhaus am brofi Duw, a'i herio. (Exodus 17:1-7). Ond ateb yr Arglwydd Iesu Grist (gan gyfeirio at Deut 6:16) yw nad yw Duw i'w osod ar brawf, ac nad ydym i brofi ei ddaioni fel pe bai'n fagl i'w ddal.

Yn ystod y Garawys hwn ceisiwn ganfod o'r newydd y gwas ffyddlon a addawyd gan Dduw, lladmerydd y cyfamod newydd, gwell; y proffwyd addawyd gan Foses, pensaer Exodus berffaith, yr un a ddaeth atom gydag aberth Pasg rhagorach.

## Prynu'r Amser

Araf y tipiai'r cloc yr oriau meithion ... meddai'r gerdd.



Er nad oes sicrwydd o hyd oes unrhyw un ohonom dywedir bod hyd oes y mwyafrif ohonom ar gyfartaledd yn ymestyn. A phe bai modd ddangos ar gloc 24 awr hyd ein hoes faint o'r gloch yw hi yn ein bywydau?

Os ydych yn 20 oed mae'r cloc yn dangos 11.34 y.b. Os ydych yn 30 oed mae hi bellach yn 1.51 y.h. Os ydych yn 40 oed fe fydd y cloc yn dangos 4.08. Os yw'r cloc yn dangos 6.25 y.h. rydych bellach yn 50 ml oed. Erbyn eich bod yn 60 bydd y cloc yn dangos 8.42 y.h. a phan fyddwch yn 70 bydd yn dangos 11.00 ar y cloc.

Mae'r cloc yn tician!

Gadewch i ni ddefnyddio'n hamser yn ddoeth.

### Salm 90

Hyd ein hoes yw saith deng mlynedd –  
Wyth deg, hwyrach – ond mae'u hyd  
Yn llawn blinder, ac ânt heibio.  
Pwy, fel ni, a wŷyr dy lid?  
Dysg ni, felly, i gyfri'n dyddiau,  
Inni fod yn ddoeth ein bryd.

*Gwynn ap Gwilym  
Salmau Cân Newydd*



Ydych chi yn defnyddio T.G. mewn oedfaon?

Ar hyn o bryd mae EBC yn cynnig cyfres o sesiynau 'PowerPoint a'r Pulpud' sydd yn rhoi hyfforddiant ar ddefnyddio technoleg mewn oedfa. I ddangos emynau, darnau o ysgrifur, lluniau, clipiau sain ac ati. Hefyd yn edrych ar ddefnyddio fideo mewn oedfaon, gan fod EBC wrthi yn paratoi ffilmiau 'Ein pregethwr gwadd heddiw yw...' sydd yn cynnig oedfa barod a phregeth ar fideo sy'n ddefnyddiol iawn ar Suliau pan nad oes pregethwr.

Cyfres o 3 sesiwn sydd yn dechrau o'r dechrau, i wneud popeth sydd angen i ddefnyddio Pwynt Pŵer mewn oedfa. Gwelwn yma rai sydd wedi mynychu yn Aberystwyth. Bydd cyfres arall yn Myrddin ym mis Mawrth / Ebrill. Os am gynnal sesiynau tebyg yn eich ardal chi, neu am fwy o fanylion cysylltwch â Delyth Oswy Shaw, Cydlynnydd Hyfforddiant EBC. [delyth.oswy@ebcpcw.cymru](mailto:delyth.oswy@ebcpcw.cymru)

*Emyr Williams*